# CYNGOR SIR

Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, C.A. Campbell, J.M. Charles, D.M. Cundy, S.A. Curry, C.A. Davies, W.R.A. Davies, T.A.J. Davies, G. Davies, H.L. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, S.L. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, H.A.L. Evans, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, C.J. Harris, T.M. Higgins, J.K. Howell, P. Hughes-Griffiths, P.M. Hughes, A. James, J.D. James, R. James, D.M. Jenkins, J.P. Jenkins, G.H. John, C. Jones, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, H.I. Jones, T.J. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, S. Matthews, A.S.J. McPherson, E. Morgan, S. Najmi, D. Nicholas, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, H.B. Shepardson, A.D.T. Speake, L.M. Stephens, B. Thomas, D. Thomas, E.G. Thomas, G.B. Thomas, J. Tremlett, A.Vaughan Owen, D.T. Williams, D.E. Williams a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 yb - 11.05 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Davies, D.C. Evans, L. Evans, D. Harries, K. Lloyd, A.G. Morgan, D. Price a G. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad i deulu'r diweddar Martin Morris, a fu'n aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin a'r hen Gyngor Sir Dyfed. Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Rob James (Arweinydd y Blaid Lafur) i Mr Morris, a fu'n Arweinydd Grŵp Llafur, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ffocws Cwsmeriaid/Cydraddoldeb yn ystod ei gyfnod fel aelod etholedig dros Sir Gaerfyrddin.

  Safodd y Cyngor mewn tawelwch fel arwydd o deyrnged i Mr Morris.

- Estynnodd y Cadeirydd groeso i Wendy Walters i'w chyfarfod cyntaf gyda'r Cyngor ar ôl iddi gael ei phenodi i swydd y Prif Weithredwr.
- Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol yn ei wasanaeth dinesig, yn enwedig ei gaplan y Parchedig Dr Caroline Jones, y Gwir Barchedig Joanna Penberthy a Mr Mark Drakeford, sef Prif Weinidog Llywodraeth Cymru.

  Diolchodd hefyd i'r rheiny a oedd wedi cyfrannu at ei elusen, gan godi swm o £806.76 ar gyfer y banciau bwyd.
- Soniodd y Cadeirydd am y digwyddiadau y bu ef a'i is-gadeirydd yn bresennol ynddynt yn ddiweddar, yn enwedig y seremonïau penodi maerol mewn nifer o Gynghorau Tref a Chymuned ledled ardal yr awdurdod.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei ymweliad diweddar, gyda'r Cynghorydd Irfon Jones, â Mr a Mrs Jones o Fwlchnewydd, Caerfyrddin, a oedd wedi dathlu 70 mlynedd o briodas yn ddiweddar.
- Talodd y Cynghorydd Hazel Evans deyrnged i Dorian Lewis a Mark Allen o Adran yr Amgylchedd yn y Cyngor, yr oedd eu gweithredoedd anhunanol wedi achub bywyd gyrrwr lori yr oedd ei gerbyd wedi'i ysgubo i'r afon gan y tirlithriad yng Nghwmduad yn ystod Storm Callum yn ddiweddar. Cydnabuwyd eu gweithredoedd hefyd yn ystod noson Gwobrau Cymunedol Gorllewin Cymru ar 24 Mai, pan roddwyd y Wobr Dewrder Cymunedol iddynt.

  Cyflwynodd y Cadeirydd anrheg i Dorian a Mark gan y Cyngor er mwyn cydnabod eu dewrder.

- Estynnwyd llongyfarchiadau i:-
  - Y Cynghorydd Elwyn Williams, ar ei benodiad yn Is-gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2019/20.
  - Y Cynghorydd Rob Evans ar gael gwobr yng nghategori 'Codi Arian i Elusen' yng Ngwobrau Cymunedol Gorllewin Cymru 2019 o ran ei waith yn datblygu Banc Bwyd Llanelli a ac am ddarparu fan i wasanaethu'r holl gymunedau. Roedd y Cynghorydd Evans hefyd wedi creu Gardd Goffa'r Rhyfel yn Nafen, Llanelli.
  - Y Cynghorydd Jim Jones ar ei ben-blwydd diweddar.
- Soniodd y Cynghorydd Gary Jones am y sefydliadau canlynol yn Llangennech, a oedd wedi cael llwyddiant yng Ngwobrau Bwyd Cymru yn ddiweddar:-

  The Bridge - Bwyty'r Flwyddyn (Rhanbarth y De-orllewin)

  Tafarn y Morlais - Tafarn Gastro'r Flwyddyn (Rhanbarth y De-ddwyrain)

  Parc Carafannau Teithiol De Cymru, ger Heol Troserch - Safle Carafanau Gorau yng Nghymru

- Estynnodd y Cynghorydd P. Hughes Griffiths, sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ei werthfawrogiad i bawb o Sir Gaerfyrddin a oedd wedi cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar, gan gynnwys disgyblion ysgol, athrawon, gwirfoddolwyr a chrefftwyr.

- Cafodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddar gan y Cynghorydd Cundy am yr ymarfer sgrinio TB a gynhaliwyd yn ddiweddar yn wardiau'r Bynea a Llwynhendy. Dyma oedd yr ymarfer sgrinio mwyaf erioed yng Nghymru a daeth oddeutu 1400 o bobl, sy'n 900 yn fwy na'r hyn a ddisgwyliwyd. Mynegodd ei werthfawrogiad i'r holl staff meddygol a oedd yn rhan o'r ymarfer sgrinio, a gofynnodd i'r Cyngor anfon llythyr o ddiolch at y timau meddygol drwy Dr Brendan Mason, Pennaeth y Tîm Sgrinio, er mwyn dangos gwerthfawrogiad y Cyngor am eu gwaith.

  **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cyngor yn anfon llythyr o ddiolch at Dr Brendan Mason a'i dîm er mwyn mynegi ei werthfawrogiad am eu gwaith caled yn ystod yr ymarfer sgrinio TB a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Wardiau'r Bynea a Llwynhendy.**

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR:-

### 4.1. 10FED EBRILL, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019 yn gofnod cywir.**

### 4.2. 1AF MAI, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mai 2019 yn gofnod cywir.**

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

### 6.1. CWESTIWN GAN CYNGHORYDD ROB EVANS I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR

“Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn credu bod "Pob Plentyn yn Bwysig”. Dywedir wrthym hefyd fod rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled bob amser o dan bob "Fformiwla Ariannu Teg". Fodd bynnag, os yw'r un ysgolion ar eu colled flwyddyn ar ôl blwyddyn, sut y gall hyn fod yn deg. Beth y gellir ei wneud i leihau'r anghydraddoldeb hwn?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

"Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Rob Evans am ei gwestiwn.

Cytunaf fod 'Pob Plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn Bwysig' ac rydym yn gwneud ein gorau dros bob plentyn a phob person ifanc - yn ôl y cyfrifiad diwethaf roedd bron 28,000 ohonynt yn y Sir. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni weithio o fewn y Grant Cynnal Refeniw sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Byddai'n braf cael cyllideb deg o'r dechrau, yn ogystal â chyllideb amserol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid yw Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn y gyllideb addysg. Yng nghyfarfodydd Cymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru ac wrth ymgynghori â Llywodraeth Lafur Cymru, rydym wedi gofyn am hynny, ond dywedwyd wrthym fod rhaid i ni flaenoriaethu addysg. Byddai rhai pobl yn ystyried hon yn broblem sydd bron yn amhosibl i'w datrys. Hynny yw, ein cyfrifoldeb ni fydd cyflawni hynny gan gadw at gyllideb sy'n lleihau ar adeg ariannol anodd. Felly, dim ond yr wythnos diwethaf gwnaethom dderbyn £1.9 miliwn y dylem fod wedi'i dderbyn ar y dechrau, ond rydym wedi'i gael tri mis ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae hynny hefyd yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn pennu'r gyllideb.

Mae'r weinyddiaeth hon wedi gweithio mor galed i amddiffyn cyllideb yr ysgolion ac nid ydym wedi lleihau'r gyllideb a ddyrennir i ysgolion, yn wahanol i'r hyn y mae llawer o Gynghorau Sir eraill wedi gorfod ei wneud. Nid yw hyn wedi bod yn wir ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill lle bo toriadau'r gyllideb wedi cael effaith fawr.

O dan Reoliadau Cyllid Ysgolion Cymru Gyfan 2010, sy'n berthnasol i'r holl Gynghorau Sir yng Nghymru, sef pob awdurdod, mae cyllideb yr ysgolion unigol yn cael ei dyrannu i ysgolion ar ffurf cyfrannau yn y gyllideb, gan ddefnyddio fformiwla cyllido a bennir yn lleol. Mae cynnwys y fformiwla'n cael ei bennu gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol, ac mae llawer o agweddau'n gyffredin i'r holl Gynghorau. Fodd bynnag, mae ychydig o hyblygrwydd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

Cyn dechrau cyfnod cyllido, mae'n rhaid i awdurdod lleol bennu'r fformiwla y bydd yn defnyddio i bennu cyfrannau'r ysgolion yn y gyllideb yn ystod y cyfnod cyllido hwnnw, gan ystyried y ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau.

Wrth bennu cyfrannau'r ysgolion yn y gyllideb, mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod ei fformiwla'n nodi bod o leiaf 70% o'r cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail nifer y disgyblion. Caiff awdurdodau ddewis wedyn i ddyrannu'r 30% sy'n weddill ar sail ystod o ffactorau er mwyn iddynt ystyried amgylchiadau ysgolion unigol.

Duw a'n gwaredo pe byddai Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo gormod o gyfrifoldeb i'r llywodraethau lleol. Yn Atodlen 3 i Reoliadau 2010, maent yn manylu ar y meini prawf ychwanegol y gallent eu hystyried fel Awdurdod Lleol wrth bennu'r fformiwla honno am 30%, ac maent yn cynnwys meysydd megis Anghenion Addysg Arbennig, Cyfleustodau, Cyfraddau Cenedlaethol Annomestig, safleoedd, maint yr ysgol, safleoedd ar wahân, glanhau, iaith ac eraill lle na fyddai nifer y disgyblion yn ffactor priodol. Maent yr un peth ar gyfer yr holl awdurdodau yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd gwahaniaethau o ran eu pwysigrwydd a'u pwyslais a'u gwerth am yr arian gan fod pob ardal Cyngor Sir yn wahanol. Yn ogystal â hynny, mae'r holl ysgolion yn wahanol ac felly mae'n rhesymegol na fyddai dwy ysgol yn denu'r un cyllid oherwydd yr amgylchiadau lleol a'r meini prawf lleol.

Gan gyfeirio at eich cwestiwn o ran 'rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled', mae'r fformiwla a ddefnyddir gennym i gyllido ysgolion yn ddull teg a chyfartal o ddyrannu oherwydd ei fod yn cael ei defnyddio i gyllido'n holl ysgolion - mae pob ysgol yn cael ei thrin yn yr un ffordd. Fodd bynnag, pan fyddwch yn newid sail dyrannu neu swm o fewn yr un cyfanswm, bydd y newid yn y cyfrannau fesul ysgol yn gyfuniad o godiadau a gostyngiadau. Mewn geiriau eraill, mae maint y deisen yn aros yr un peth, ond gall maint y dafell amrywio. Y rheswm dros newid y sail dyrannu yw adlewyrchu'r anghenion, y datblygiadau a'r pwysau presennol ar draws y sectorau ysgolion.

Achos y newid mwyaf sylweddol yn y sector cynradd yw cynnydd neu ostyngiadau yn nifer y disgyblion. Y prif resymau dros hyn yw'r gostyngiad yn nifer y disgyblion, nifer yr ysgolion sydd ar gael mewn ardal gymharol fach a dewis rhieni.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod gwaith ein Penaethiaid, ein swyddogion cyllid a'r Llywodraethwyr Ysgol sydd wedi bod yn gweithio'n galed i weithredu o fewn yr adnoddau a neilltuir iddynt, ac rwy'n cydnabod ei bod hi'n adeg heriol i'r holl ysgolion a holl wasanaethau'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, yn ystod adeg ariannol anodd, mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd a cheisio gweithredu o fewn yr adnoddau a roddir i ni."

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

## 7. YSTRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATER CANLYNOL:-

### 7.1. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT - YNNI GWYNT AC YNNI'R HAUL A CHANLLAW DYLUNIO PRIFFYRDD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MABWYSIEDIG SIR GAERFYRDDIN

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill 2019 (gweler cofnod 9) wedi ystyried adroddiad ar fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft - Ynni'r Gwynt ac Ynni'r Haul yng Nghynllun Lleol Caerfyrddin a'r Cylch a'i fod wedi ystyried bod Canllawiau Cynllunio Atodol - Dylunio Priffyrdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn cael eu cynnwys yn y Cynllun.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**“Bod yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori yn cael eu nodi a bod y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad;**

**Bod Canllawiau Cynllunio Atodol y Canllaw Dylunio Priffyrdd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gyfnod o** chwe wythnos;

**Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio gywiro gwallau argraffu, gwallau cartograffig neu wallau gramadegol a gwneud diwygiadau er mwyn gwella'r cywirdeb a gwneud yr ystyr yn gliriach.”**

### 7.2. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018-23 - DIWEDDARIAD MEHEFIN 2019

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 3 Mehefin 2019 (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad diweddaru ynghylch Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018, a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2019 yn dilyn adolygiad o'r Amcanion Llesiant. Nodwyd bod yr adroddiad diweddaru wedi'i ystyried eisoes gan bwyllgorau craffu y Cyngor a'i ddiwygio lle bo'n briodol i adlewyrchu eu barn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

"ailgadarnhau'r Strategaeth Gorfforaethol a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018;

**cadw'r un set o Amcanion Llesiant ar gyfer 2019/20 yn amodol ar wneud rhai cywiriadau."**

## 8. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODAU Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR

### 8.1. 1AF EBRILL 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2019.**

### 8.2. 7FED MAI 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019.**

### 8.3. 13EG MAI 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**